

## Safonau'r Iaith Gymraeg

## Ffurflen Asesu Effaith

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r Brifysgol asesu effaith ei holl bolisiau ar:

- Y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn y cyd-destun hwn, mae 'polisi' yn cael ei ddehongli'n eang ac mae'n cynnwys strategaethau, ailstrwythuro, systemau newydd ac ati.

Mae'n ofynnol gwneud 'ymdrech gydwbodol' i ddeall effaith polisi ar y Gymraeg. Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol gan gyfeirio at dystiolaeth i gefnogi'r asesiad. Mae'r dystiolaeth y gallwch gyfeirio ati yn cynnwys, er enghraifft, data sgiliau iaith, data astudio drwy'r Gymraeg, cadw at y Cod Ymarfer ar Benodi Staff, trafodaethau mewn pwyllgorau, ymgynghori â myfyrwyr a staff. Gall Canolfan Bedwyr ddarparu arweiniad pellach i chi. Cysylltwch â Dr Lowri Hughes [L.a.hughes@bangor.ac.uk](mailto:L.a.hughes@bangor.ac.uk).

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud eich asesiad a chofnodi effaith eich penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Dylai hon fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddarw wrth i'r penderfyniad polisi ddatblygu. Mae cadw cofnodion yn bwysig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

<b>Enw'r Polisi:</b>	Cod Ymarfer 16: Y System Cynrychiolydd Ysgol
<b>Coleg / Ysgol / Adran:</b>	Undeb Bangor
<b>Aelod(au) staff sy'n cwblhau'r asesiad effaith ar y Gymraeg:</b>	Rob Samuel a Lucy Lloyd

### RHEOLI'R DDOGFEN

Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cwblhau	Pwy fu yn ei thrafod e.e. Pwyllgor, Y Cyngor, Y Senedd	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Tachwedd 2025	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd	Dogfen Newydd

<b>CAPASITI STAFFIO DWYIEITHOG</b>	<b>Effeithiau Cadarnhaol</b>	<b>Effeithiau Niwtral</b>	<b>Effeithiau Negyddol</b>	<b>Amherthnasol</b>
<b>Effeithiau Uniongyrchol</b>				x
<b>Effeithiau Anuniongyrchol</b>				x
<b>Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol</b>				x
<b>Camau i leihau effeithiau negyddol</b>				x
<b>Crynodeb a sylwadau pellach</b>	Ddim yn berthnasol fel polisi i fyfyrwyr			

DEFNYDDIO'R GYMRAEG: (cyfleoedd i staff, myfyrwyr, y cyhoedd)	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Niwtral	Effeithiau Negyddol	Amherthnasol
<p><b>Effeithiau Uniongyrchol</b></p>	<p>Deunydd hyrwyddo penodol wedi'i dargedu at fyfyrwyr Cymraeg, i'w hannog i wneud cais am rolau, gan gynnwys rolau cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg.</p> <p>O ran cynrychiolwyr Ysgol y Gymraeg, mae Llywydd UMCB yn cynnig sesiynau dal i fyny yn Gymraeg.</p> <p>I bob cynrychiolydd arall sy'n siarad Cymraeg, cynigir sesiwn dal i fyny cyfrwng Cymraeg ychwanegol iddynt gyda Llywydd UMCB yn benodol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â'u sesiynau dal i fyny ar lefel</p>	<p>Mae pob dogfen ysgrifenedig a deunydd hyrwyddo, gan gynnwys postiadau cyfryngau cymdeithasol, ffurflenni cais, cyflwyniadau hyfforddi a llawlyfr Cynrychiolwyr Ysgol, yn ddwyieithog.</p>	<p>Gall rhai cyfarfodydd a darpariaeth yn y cnaud gael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg yn ôl lefel Cymraeg staff.</p>	

	ysgol gyda'u cynrychiolwyr.			
<b>Effeithiau Anuniongyrchol</b>		Gall myfyrwyr gael mynediad at y ffurflen 'Adborth i'ch Cynrychiolwyr' yn ddwyieithog ac felly rhoi adborth i gynrychiolwyr yn eu hiaith ddewisol, p'un a oes ganddynt Gynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ai peidio.	Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr nad oes ganddynt gynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg yn eu hysgol yn llai tebygol o ddefnyddio'r system Cynrychiolwyr Ysgol.	
<b>Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol</b>	Deunydd hyrwyddo ymhellach wedi'i dargedu o'r rôl i fyfyrwyr Cymraeg i gynyddu nifer y cynrychiolwyr sy'n siarad Cymraeg, trwy sianeli UMCB.  Gweithio gyda staff cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion i hyrwyddo'r rôl ymhellach.			

	<p>Hysbysebu cynrychiolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg ar dudalennau ar-lein lle mae manylion cynrychiolwyr yn cael eu rhannu. Bathodyn neu sticer i'w ddangos i siaradwyr Cymraeg i gynrychiolwyr ei ddefnyddio yn eu deunyddiau hyrwyddo eu hunain.</p> <p>Datblygu hyfforddiant ychwanegol yn benodol ar gyfer cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg, i'w ddatblygu mewn partneriaeth â Chanolfan Bedwyr a'i gyflwyno o 2026-27. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys gwybodaeth am rolau cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am gyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg.</p>			
--	--	--	--	--

<p><b>Camau i leihau effeithiau negyddol</b></p>	<p>Datblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, gan weithio gyda staff sy'n siarad Cymraeg i'w gyflwyno, er mwyn galluogi cynrychiolwyr i gael mynediad at hyfforddiant yn eu hiaith ddewisol.</p> <p>Hyrwyddo'r ffurflen adborth yn benodol i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg gan mai dull dwyieithog o roi adborth yw hwn.</p> <p>Datblygu adnoddau cynrychiolwyr ymhellach i gynnwys gwybodaeth am sut i gael mynediad at wasanaethau cyfieithu, i hwyluso dwyieithrwydd yn rôl y cynrychiolydd ac mewn digwyddiadau a drefnir gan gynrychiolwyr.</p>			

	Defnyddio gwasanaethau cyfieithu lle bo modd ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd yn y cnaud ar gyfer cynrychiolwyr.			
<b>Crynodeb a sylwadau pellach</b>	Mae camau rhagweithiol eisoes ar waith, gyda chamau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus.			

<b>DARPARIAETH ACADEMAIDD TRWY'R GYMRAEG</b>	<b>Effeithiau Cadarnhaol</b>	<b>Effeithiau Niwtral</b>	<b>Effeithiau Negyddol</b>	<b>Amherthnasol</b>
<b>Effeithiau Uniongyrchol</b>				<b>x</b>
<b>Effeithiau Anuniongyrchol</b>	Mae cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg yn casglu adborth yn benodol ar y profiad academaidd Cymraeg, ac yn mynychu fforymau cyfrwng Cymraeg, er mwyn hwyluso newid			

	cadarnhaol i'r profiad academaidd Cymraeg.			
<b>Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol</b>	Deunydd hyrwyddo wedi'i dargedu'n benodol at siaradwyr Cymraeg gyda'r nod o gael cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol.			
<b>Camau i leihau effeithiau negyddol</b>				x
<b>Crynodeb a sylwadau pellach</b>	Gall cynrychiolwyr gael effaith anuniongyrchol gadarnhaol ar ddarpariaeth academaidd drwy gasglu adborth ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a rhannu hynny gyda staff.			

<b>GWASANAETHAU CYMRAEG</b>	<b>Effeithiau Cadarnhaol</b>	<b>Effeithiau Niwtral</b>	<b>Effeithiau Negyddol</b>	<b>Amherthnasol</b>
<b>Effeithiau Uniongyrchol</b>		Mae pob elfen o'r polisi yn ddwyieithog.		

<b>Effeithiau Anuniongyrchol</b>			Cynhelir rhai cyfarfodydd gyda staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn Saesneg.	
<b>Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol</b>				x
<b>Camau i leihau effeithiau negyddol</b>	Defnyddio gwasanaethau cyfieithu lle bo modd i alluogi cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog.			
<b>Crynodeb a sylwadau pellach</b>				